Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Evaluation tips
Syniadau da am werthuso

Our tips to help you review your Takeover Day

- **Build in your evaluation into your planning.** Don't forget to think about how you are going to evaluate your Takeover Day before the day itself. Make it part of your planning. Often evaluation gets forgotten about, which can lead to collecting the wrong data or not being able to gather feedback from partners and participants at all.

- **Reflect on why you are evaluating.** Think about the reasons you are evaluating your Takeover Day. Who will you share the feedback with? What will you do with the information you collect?

- **Decide who you are evaluating with.** This could be your participants, partners, museum staff, volunteers and your own reflections as the organiser.

- **Think about what you want to evaluate.** Decide what your key objectives are for running Takeover Day. For example, are you working with a new group? You might want to know if they would be likely to work with you again, or if they would visit in their own time. If you want to encourage different teams across the museum to work with this audience, you can find out whether staff enjoyed the experience.

- **How will you collect your evaluation?** We have created some template forms for participants and for partners which you can download and use on the day. Or you could create your own feedback form.

- **Analyse the data.** Think about how you will analyse the data you collect as it can take longer than you think. Factor this time in your planning. Decide on how it should be presented, for example a simple one-page report with graphics, images and quotes can have more impact than a longer document.

Ein syniadau i'ch helpu i adolygu eich Diwrnod Meddiannu

- **Adeiladwch eich gwerthusiad i mewn i'ch cynllunio.** Peidiwch ag anghofio ystyried sut yr ydych yn mynd i werthuso eich Diwrnod Meddiannu cyn y diwrnod ei hun. Gwnewch hyn yn rhan o'ch cynllunio. Yn aml iawn, mae pobl yn anghofio am y gwerthuso, ac mae hynny'n gallu arwain at gasglu'r data anghywir neu sefyllfa lle mae'n amhosibl casglu unrhyw adborth gan bartneriaid a chyfranogwyr.

- **Ystyriwch pam eich bod chi'n gwerthuso.** Meddyliwch am y rhesymau pam yr ydych yn gwerthuso eich Diwrnod Meddiannu. Gyda phwy wnewch chi rannu'r adborth? Beth wnewch chi gyda'r wybodaeth a gasglwch?

- **Penderfynwch gyda phwy yr ydych am werthuso.** Cyfranogwyr efallai, a phartneriaid, staff yr amgueddfa, gwirfoddolwyr a'ch myfyrdodau eich hun fel trefnydd.

- **Ystyriwch yr hyn yr ydych eisiau ei werthuso.** Penderfynwch beth yw eich prif amcanion ar gyfer cynnal Diwrnod Meddiannu. Er enghraifft, ydych chi'n gweithio gyda grŵp newydd? Efallai eich bod eisiau gwybod a fyddent yn debygol o weithio gyda chi eto, neu a fydden nhw'n dod i ymweld yn eu hamser eu hunain. Os ydych eisiau annog gwahanol dimau ar draws yr amgueddfa i weithio gyda'r gynulleidfa hon, gallwch ganfod a oedd y staff wedi mwynhau'r profiad

- **Sut wnewch chi gasglu eich gwerthusiad?** Rydym wedi creu ffurflenni templed i gyfranogwyr ac i bartneriaid y gallwch eu lawrlwytho a'u defnyddio ar y diwrnod. Neu gallwch greu eich ffurflen adborth eich hun.

- **Dadansoddwch y data.** Ystyriwch sut y byddwch yn dadansoddi'r data a gasglwch oherwydd gall gymryd mwy o amser nag y disgwyliwch. Rhowch ddigon o amser yn eich cynllunio ar gyfer gwneud hyn. Penderfynwch sut y dylai gael ei gyflwyno, er enghraifft mae adroddiad syml un dudalen gyda graffeg, lluniau a dyfyniadau'n gallu bod yn fwy effeithiol na dogfen hirach.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

- **Share your evaluation.** Decide who would be interested in your evaluation. Kids in Museums will ask you to fill in an online survey once your Takeover Day has happened. We have also created an online survey for you to give your partners. We use the data to improve the way we work with the sector on Takeover Day. Volunteers and staff may also be interested in giving their feedback. You could use the quotes or statistics from your evaluation to get more staff on board for the following year or to attract new partners in the future.

- **Feed the evaluation back into next year's planning.** Evaluation should be part of your planning cycle so that the data from the previous year feeds into your next event. This means you can make changes and adaptations to your Takeover Day to make it a better experience for everyone the following year.

- **Rhannwch eich gwerthusiad.** Penderfynwch pwy fyddai â diddordeb yn eich gwerthusiad. Bydd Kids in Museums yn gofyn i chi lenwi arolwg ar-lein unwaith y bydd eich Diwrnod Meddiannu wedi digwydd. Rydym hefyd wedi creu arolwg ar-lein i chi ei roi i'ch partneriaid. Rydym yn defnyddio'r data i wella'r ffordd a weithiwn gyda'r sector ar y Diwrnod Meddiannu. Efallai y bydd gan wirfoddolwyr a staff ddiddordeb mewn rhoi eu hadborth hefyd. Gallech ddefnyddio'r dyfyniadau neu'r ystadegau o'ch gwerthusiad i gael rhagor o staff i gymryd rhan y flwyddyn ddilynol neu i ddenu partneriaid newydd yn y dyfodol.

- **Bwydwch y gwerthusiad yn ôl i mewn i gynlluniau'r flwyddyn nesaf.** Dylai eich gwerthusiad fod yn rhan o'ch cylch cynllunio fel bod y data o'r flwyddyn flaenorol yn bwydo i mewn i'ch digwyddiad nesaf. Mae hyn yn golygu y gallwch wneud newidiadau ac addasiadau i'ch Diwrnod Meddiannu i'w wneud yn brofiad gwell i bawb y flwyddyn ddilynol.

Evaluation framework table

We have designed this table to help you develop an evaluation framework for your Takeover Day. Fill in the columns over on the next page to decide how you will evaluate your event. An example is below:

Bwrdd fframwaith y gwerthusiad

Rydym wedi llunio'r tabl hwn i'ch helpu i ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer eich Diwrnod Meddiannu. Llenwch y colofnau dros y dudalen nesaf i benderfynu sut y byddwch yn gwerthuso eich digwyddiad. Dyma esiampl isod:

GYDA PHWY FYDDWCH CHI'N GWERTHUSO? WHO WILL YOU EVALUATE WITH?	**BETH YDYCH CHI EISIAU EI GANFOD?** WHAT DO YOU WANT TO FIND OUT?	**PA GANLYNIADAU HOFFECH CHI EU GWELD?** WHAT DO YOU HOPE THE OUTCOMES MIGHT BE?	**SUT WNEWCH CHI WERTHUSO HYN?** HOW WILL YOU EVALUATE THIS?
Myfyrwyr Blwyddyn 9 *Year 9 students*	*A oeddent wedi mwynhau'r diwrnod* *Pa welliannau fydden nhw'n hoffi ei weld* *Whether they enjoyed the day* *What improvements they would like to see*	*Maent yn teimlo'n fwy hyderus* *Byddent yn fwy tebygol o ymgysylltu â ni yn y dyfodol* *They feel more confident* *They would be more likely to engage with us in the future*	*Ffurflen adborth Kids in Museums y gallent ei lawrlwytho* *Kids in Museums downloadable feedback form*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

GYDA PHWY FYDDWCH CHI'N GWERTHUSO? WHO WILL YOU EVALUATE WITH?	**BETH YDYCH CHI EISIAU EI GANFOD?** WHAT DO YOU WANT TO FIND OUT?	**PA GANLYNIADAU HOFFECH CHI EU GWELD?** WHAT DO YOU HOPE THE OUTCOMES MIGHT BE?	**SUT WNEWCH CHI WERTHUSO HYN?** HOW WILL YOU EVALUATE THIS?